Lucy, o Kenya

Mae Lucy yn byw yn Kisumu yng ngorllewin Kenya. Cafodd bolio pan oedd yn ifanc iawn ac effeithiodd hynny ar ei choes dde. Byddai Lucy wrth ei bodd yn cael mynd i'r ysgol ond nid yw'n gallu teithio yno oherwydd ei hanabledd.

"Fy enw i yw Lucy ac rwy'n 11 oed. Pan oeddwn i'n iau, mi es i'n sâl a dyma nhw'n mynd â mi i'r ysbyty. Mi ddwedon nhw bod gen i anabledd wedi i mi ddioddef o bolio. Mae wedi effeithio ar fy nghoes dde ac nid ydw i'n gallu ei gwneud hi'n syth, ond mae'r goes chwith yn iawn.

Pan rwy'n deffro yn y bore, rwy'n glanhau'r tŷ, yn golchi'r llestri ac yn paratoi te i bawb. Rwy'n cynnau'r tân i fy rhieni, rwy'n bwyta, yn gweddïo ac yn ymlacio. Yn y prynhawn, rwy'n rhoi bath i fy mrawd ac yn ymolchi ac yn mynd allan i chwarae pêl a gemau topiau poteli.

Dydw i ddim yn mynd i'r ysgol am nad ydw i'n gallu mynd yno: byddwn i'n gorfod cael fy nghario ac mae fy mam yn brysur ar y fferm. Rwy'n dymuno gallu dysgu darllen fel fy ffrindiau. Petawn i'n dysgu darllen, ar ôl gorffen ysgol gallwn i fod yn athrawes neu'n feddyg a helpu i gefnogi fy nheulu."

Meddai Jane, mam Lucy: "Byddwn i'n hoffi i Lucy gael mynd i'r ysgol er mwyn iddi allu bod yn annibynnol ryw ddiwrnod. Dydw i ddim yn gweld plant anabl yn yr ysgol, felly dydw i ddim yn gwybod a fydden nhw'n ei derbyn hyd yn oed petawn i'n gallu mynd â hi yno. Os na all Lucy fynd i'r ysgol, bydd ei bywyd yn anodd iawn."

Llun: © Arjun Kohli/Arete Stories/ActionAid